**Rhybudd o Ymestyn Gorchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14**
**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Llwybr Cyhoeddus Rhif 38 yng Nghymuned Bwcle) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2022**

Daeth y Gorchymyn uchod i rym ar 9 Rhagfyr 2022 am gyfnod o 6 mis, hyd at, ac yn cynnwys, 9 Mehefin 2022. Ers hynny, mae'r Gorchymyn wedi'i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, hyd at, ac yn cynnwys, 8 Rhagfyr 2023.

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod y Gorchymyn uchod a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint ar 6 Rhagfyr 2022 wedi'i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, hyd at, ac yn cynnwys, 8 Rhagfyr 2023, neu hyd y bydd y gwaith wedi'i gwblhau – pa bynnag un sydd gyntaf.

Mae'r Gorchymyn yn gwahardd cerddwyr rhan defnyddio'r rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 38 yng Nghymuned Bwcle o gyfeirnod grid 329568 363512 am bellter o tua 45 metr ar draws rheilffordd Wrecsam i Bidston i gyfeirnod grid 328581 363474.

Mae angen cau'r llwybr oherwydd bod mwy o wasanaethau ar yr amserlen a bod hynny yn achosi mwy o berygl i gerddwyr. Mae'r llwybr ar gau er diogelwch tra bod mesurau i fynd i'r afael â'r risgiau'n barhaol yn cael eu datblygu gyda gwaith cysylltiedig gan Network Rail.

Mae'r llwybr amgen sydd ar gael yn groesfan reilffordd tua 100 metr i'r de o'r rhan o'r llwybr sydd wedi'i chau.

Dyddiedig 19 Mai 2023



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
AB/FCC045037